EDWARDS, DAVID (c. 1660 - 1716), gweinidog Annibynnol

Enw: David Edwards
Dyddiad geni: c. 1660
Dyddiad marw: 1716
Plentyn: Peter Edwards
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Eirug Davies

Trigai yn Abermeurig, ym mlaen dyffryn Aeron, ac yr oedd yn berchen tai a thiroedd ym mhlwyfi Nantcwnlle a Llanddewibrefi. Yr oedd yn gymydog a chyfaill i'r amaethwr John Jones, Llwyn Rhys, arweinydd ymneilltuaeth yng nghanolbarth Ceredigion. Yr oedd Edwards yn ysgolhaig da, ac ordeiniwyd ef yn weinidog cynorthwyol i David Jones yng Nghaeronnen, Cellan, ac eglwysi eraill y gylchdaith, sef Crugymaen, Llwyn Rhys, a'r Cilgwyn, Bu farw yn 1716, a gadawodd yn ei ewyllys lyfrau i'w gydweinidogion yn y cylch ar y pryd, sef Philip Pugh a Jenkin Jones. Ei wyres Elinor oedd priod Daniel Rowlands, Llangeitho.

Awdur

Y Parchedig Thomas Eirug Davies, (1892 - 1951)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iv, 86

West Wales Historical Records (1910–29), ii, 150-60

Y Cofiadur, xiv, 13-14

Llawysgrif o eiddo'r Presbyterian Board, a gyhoeddwyd gan Alexander Gordon dan y teitl Freedom after Ejection. A Review (1690–1692) of Presbyterian and Congregational Nonconformity in England and Wales, 1917, f. 94

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732803

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu